

CWRICWLWM CYFNOD ALLWEDDOL 3 - BLYNYDDOEDD 7, 8 a 9

DS Nodwyd nifer y gwersi bob wythnos ar draws y tair blynedd

Cymraeg	10	Astudiaethau Crefyddol	4
Saesneg	10	Technoleg a Thechnoleg Gwybodaeth	10
Ffrangeg	6	Celf	4
Mathemateg	10	Cerdd	4
Gwyddoniaeth	10	Drama	1
Daearyddiaeth	6	Addysg Gorfforol [yn cynnwys Dawns]	6
Hanes	6	Addysg Bersonol a Chymdeithasol	3

BLWYDDYN 7

Mae cysylltiad agos iawn rhwng yr ysgol ag ysgolion cynradd y dalgylch mewn meysydd fel trosglwyddo'r plant a threfnu gwaith fydd yn arwain at waith yr ysgol uwchradd.

Polisi'r ysgol yw datblygu Cymraeg a Saesneg y plant yn llafar ac yn ysgrifenedig mewn nifer o bynciau a meysydd profiad fel dilyniant naturiol i waith dwyieithog yr ysgolion cynradd.

Y Cwrs Trochi - Ym mis Mehefin, gwahoddir disgyblion i'r cwrs 6 wythnos hwn yn Ysgol Uwchradd Bodedern.

Addysgir y cwrs gan athrawon profiadol. Bwriad y cwrs yw rhoi hwb ychwanegol i'r plant wella eu sgiliau yn y Gymraeg ac ymglyfarwyddo ag ethos yr Ysgol cyn cychwyn ar addysg ddwyieithog lawn ym mis Medi. Caiff y disgyblion deithio am ddim ar un o fysiau'r ysgol.

Gwahoddir pob disgybl i'r ysgol ar gyfer gwahanol weithgareddau yn ystod y flwyddyn ac am dri diwrnod ym mis Gorffennaf.

Grwpiau Dwyieithog:

Dosbarthiadau o alluoedd cymysg. Byddant yn cynnwys plant sy'n ddwyieithog ar drothwy eu blwyddyn gyntaf o addysg uwchradd. Bydd o leiaf 70% o'u hamser yn cael ei dreulio drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Dysgir Cymraeg, Addysg Gorfforol ac Addysg Grefyddol drwy'r Gymraeg yn unig.
- Mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth y Gymraeg fydd iaith lafar y dosbarthiadau. Bydd y Gymraeg hefyd yn cael lle amlwg yn y gwaith ysgrifenedig a sicrheir defnydd priodol o'r Saesneg yn ôl natur y gwaith a chyraeddiadau ieithyddol y disgybl. Ceisir osgoi cofnodi mewn un iaith yn unig er mwyn i'r disgyblion allu ymdrin â'u gwaith yn hyderus yn y ddwy iaith gan ddefnyddio'r termau priodol

- Mewn Hanes a Daearyddiaeth bydd y rhan fwyaf o'r gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg gydag unedau ac agweddau penodol yn Saesneg.
- Defnyddir gwersi Drama i gyfleu'r ddwy iaith lafar.
- Mewn Cerdd, Celf a Thechnoleg, y Gymraeg fydd y brif iaith gyfathrebu a bydd y rhan fwyaf o'r gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg, ond cyflwynir termau Saesneg i'r disgyblion eu dysgu a'u defnyddio.
- Addysgir Saesneg a Ffrangeg drwy gyfrwng y Saesneg.

Grŵp Dwyieithog Gruffudd:

Dosbarth o blant sydd yn dal i ddatblygu yn y Gymraeg ac angen cynhaliaeth - byddant yn treulio rhwng 30 a 50% o'u hamser drwy'r Gymraeg. Defnyddir Cymraeg llafar yn y pynciau ymarferol fel Drama, Dawns, Cerdd, Celf, Addysg Gorfforol a Thechnoleg er mwyn cryfhau eu Cymraeg llafar drwy gyswllt â siaradwyr naturiol. Rhwir cyfle iddynt hefyd ymarfer eu sgiliau ieithyddol drwy ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth er mai'r Saesneg fydd cyfrwng y dysgu ar gyfer y pynciau hyn. Cymraeg fydd prif gyfrwng y dysgu yn y Gymraeg, Hanes, Daearyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol.

Trefnir rhaglen ddysgu unigol ar gyfer pob disgybl er mwyn sicrhau'r datblygiad tuag at y nod o ddwyieithrwydd yn 16 oed. Gwneir darpariaeth arbennig o fewn y garfan hon ar gyfer yr hwyrdyfodiaid, a threfnir gwersi ychwanegol ar eu cyfer er mwyn eu cynorthwyo i ymdoddi'n gyflym i gymdeithas yr ysgol. Pan fo asesiadau'r athrawon yn dangos na fydd disgybl yn elwa wrth aros yn hwy yn nosbarth Gruffudd fe'i symudir i ddosbarth Cymraeg iaith gyntaf.

BLWYDDYN 8 a BLWYDDYN 9

Ym mlynnyddoedd 8 a 9 defnyddir trefn debyg i'r uchod ond bydd peth setio mewn rhai pynciau o fewn dwy garfan debyg eu cyrhaeddiad. Lle bo modd, integreiddir y dysgwyr llwyddiannus yn y grwpiau dwyieithog.